



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar
Goleg Pengwern**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a
Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/02/2018

Cyd-destun

Mae Coleg Pengwern Cambian yn goleg arbenigol annibynnol ym mherchenogaeth grŵp Cambian. Mae'r coleg yn darparu addysg i hyd at 75 o ddysgwyr 16 i 25 oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddwys a lluosog, anawsterau corfforol ac anhwylderau'r sbectwm awtistig. Gall dysgwyr gael lleoliadau am hyd at dair blynedd. Ar hyn o bryd, mae 53 o ddysgwyr yno. Mae ychydig yn llai na hanner ohonynt yn mynychu'n ddyddiol. Mae gan y gweddill ohonynt leoliadau preswyl.

Mae'r coleg mewn lleoliad gwledig yn Rhuddlan, gogledd Cymru, ac o fewn ei amgylchedd 23 erw, mae ganddo fferm fechan ac ysgol goedwig.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r coleg wedi penodi pennaeth addysg newydd. Mae hi wedi bod yn ei swydd ers Medi 2017.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

- Mae dysgwyr yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Maent yn mynychu'r coleg yn rheolaidd ac yn cynnal eu diddordeb a'u sylw'n llwyddiannus mewn gwersi. Mae hyn yn eu helpu i wneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu.
- Mae dysgwyr yn datblygu'u medrau cyfathrebu a'u medrau cymdeithasol yn dda. Maent yn ymddwyn yn dda mewn sesiynau ac ar adegau o'r dydd sydd â llai o strwythur iddynt.
- Mae perthnasoedd gwaith cryf rhwng tiwtoriaid, cynorthwywyr cymorth dysgu a dysgwyr. Mae'r holl aelodau staff yn hybu ethos cynhwysol sy'n annog dysgwyr i lwyddo ac sy'n dathlu'u cyflawniadau unigol.
- Mae ffocws cryf yng nghynlluniau'r tiwtoriaid ar fynd i'r afael â thargedau'r dysgwyr. Maent yn rhannu'r rhain yn dda gyda dysgwyr ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i asesu eu cynnydd yn erbyn eu targedau.
- Mae tiwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu yn defnyddio holi yn effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu llafar dysgwyr. Defnyddiant symbolau a chymhorthion cyfathrebu yn dda i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr a'u helpu i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau.
- Mae cwricwlwm y coleg yn cynnig dewis amrywiol o brofiadau dysgu sy'n cael eu paru'n agos ag anghenion a galluoedd unigol dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn profiad gwaith gydag amrywiaeth eang o gyflogwyr lleol a chenedlaethol.
- Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael ag argymhellion o'r ymweliad monitro blaenorol.

Meysydd i'w datblygu

- Mae gan y coleg brosesau addas i arfarnu ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn canolbwyntio'n ddigon da ar y cynnydd a wna dysgwyr mewn gwersi na meysydd i'w datblygu mewn addysgu ac asesu. Nid yw cynlluniau'r tiwtoriaid yn hybu cyfleoedd i ddysgwyr ddod yn fwy annibynnol o safbwynt eu hanghenion a'u galluoedd unigol yn ddigonol.
- Mae cynlluniau dysgu unigol (CDUau) dysgwyr yn nodi nodau tymor canol a thymor hir addas sy'n perthyn yn agos yn gyffredinol i gyrchfannau tebygol dysgwyr. Fodd bynnag, mae ansawdd gosod targedau tymor byr yn amrywio'n ormodol. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw targedau tymor byr yn mynd i'r afael ag anghenion penodol dysgwyr nac yn perthyn i nodau tymor hir dysgwyr yn ddigon clir.
- Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi ailstrwythuro'r tîm arwain addysg i sicrhau bod llwybrau dysgu yn fwy cyson. Mae'r pennaeth addysg a'r pennaeth addysg cynorthwyol wedi bod yn eu swyddi er Medi 2017.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod cynlluniau tiwtoriaid yn hybu medrau annibyniaeth dysgwyr lle bynnag y bo'n bosibl
- A2 Cryfhau ansawdd a chysondeb gosod targedau fel bod targedau yn fwy penodol a pherthnasol i anghenion a chyrchfannau dysgwyr
- A3 Cefnogi a herio'r tîm arwain newydd ar gyfer addysg fel eu bod yn llwyddo yn eu rolau
- A4 Sicrhau bod arsylwadau gwersi'n canolbwyntio'n ddigonol ar y cynnydd a wna dysgwyr mewn gwersi

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Parhau i ddadansoddi data er mwyn llywio cynllunio

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr ymweliad monitro blaenorol, mae'r coleg wedi cyflwyno cylch ansawdd defnyddiol, sy'n cynnwys pwyntiau dal data rheolaidd. Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'u hadroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r coleg. Mae arweinwyr yn dadansoddi data ar ymddygiad a phresenoldeb dysgwyr yn dda i olrhain agweddau dysgwyr at ddysgu ac ymgysylltiad y dysgwyr. Mae'r dadansoddi hwn yn cynorthwyo arweinwyr i amlygu meysydd allweddol y mae angen gweithredu arnynt ar unwaith. Er enghraifft, mae'r dadansoddiad diweddar o dueddiadau mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad wedi arwain at newidiadau i amserlen y coleg. Hefyd, mae'n sicrhau bod dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gan y tîm amlddisgyblaeth yn cael eu cyfeirio'n amserol.

Mae'r coleg yn casglu ac yn dadansoddi data defnyddiol ar gynnydd dysgwyr yn erbyn y targedau yn eu CDUau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i arfarnu cynnydd cyffredinol dysgwyr yn ystod eu cyfnod yn y coleg.

Argymhelliad 2: Sicrhau bod yr adroddiad hunanasesu yn canolbwyntio'n glir ar feysydd i'w datblygu, yn ogystal â chryfderau

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae adroddiad hunanasesu'r coleg yn rhoi adroddiad manwl a chynhwysfawr o waith y coleg ac mae'n croesgyfeirio'n dda â fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn cynnwys crynodeb defnyddiol o gryfderau'r coleg a'i feysydd i'w datblygu mewn perthynas â phob maes arolygu. Mae'r meysydd i'w datblygu yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau a nodir yng nghynllun datblygu'r coleg.

Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn cynnwys arfarniad digonol o gyflawniadau a chynnydd dysgwyr, na'r safonau addysgu yn y coleg. O'r herwydd, mae'n anodd i arweinwyr nodi'n gywir feysydd i'w datblygu yn y ddau faes hyn i lywio'u cynllunio.

Argymhelliad 3: Parhau i geisio barn gweithwyr proffesiynol eraill fel rhan o'r broses hunanasesu

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan y coleg drefniadau sicr i gasglu barn amrywiaeth addas o randdeiliaid i lywio'i hunanasesiad, gan gynnwys barn dysgwyr, staff, rhieni a gweithwyr proffesiynol. Er enghraifft, mae wedi rhoi prosesau priodol ar waith i gasglu adborth gan weithwyr cymdeithasol, ymgynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr ieuchyd yn syth wedi adolygiadau'r dysgwyr, sy'n canolbwyntio arnynt yn unigol. O hyn, caiff arweinwyr safbwyntiau defnyddiol gan y gweithwyr proffesiynol hyn ar y deilliannau, y ddarpariaeth, a'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn y coleg.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am y coleg

Coleg	Coleg Pengwern
Rhif y coleg	F0006002
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	13/12/2017
Perchennog	The Cambian Group
Staff	1 pennaeth, 1 pennaeth addysg, 1 pennaeth addysg cynorthwyol, 13 tiwtor, 94 aelod staff cymorth dysgu, 1 rheolwr cyllid a phontio, 1 swyddog derbyn, 1 rheolwr gweinyddol, 1 pennaeth gofal, 8 dirprwy reolwr gofal, 1 nyrs, 1 cynorthwydd gofal iechyd, 1 therapydd iaith a lleferydd, 1 cynorthwydd iaith a lleferydd, 1.5 therapydd galwedigaethol, 4 gyrrwr, 1 archwilydd data, 1 swyddog TGCh, 2 swyddog gweinyddol, 1.5 cogydd, 2 swyddog cynnal a chadw, 1.5 glanhawr, 0.5 technegydd cerbydau, 1 technegydd fferm
Nifer y dysgwyr	53
Darpariaeth	26 lleoliad dydd, 27 lleoliad preswyl
Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer	Anghenion dysgu ychwanegol cymedrol i ddwys a lluosog, anabledau corfforol a chyflyrau'r sbectrwm awtistig
Arolygiad llawn diwethaf	06/10/2014
Arolygiad monitro blynyddol diwethaf	12/10/2015
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	04/09/2017